BRITISH COUNCIL

# Pecyn Addysg Iaith a Diwylliant
# Wcráin



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

‘Drwy adeiladu cysylltiadau… Rwy’n credu y gallwn helpu plant ar y ddwy ochr i ehangu eu gorwelion, magu hyder a meithrin cyfeillgarwch a allai bara oes’

Llythyr i ysgolion sy’n cymryd rhan yn rhaglen Partneriaethau Ysgolion y DU a Wcráin

**Swyddfa’r Prif Weinidog**



# Cyflwyniad

Cafodd y pecyn addysg hwn ei lunio i helpu athrawon ysgolion cynradd gyflwyno elfennau o iaith a diwylliant Wcráin i'w dysgwyr. Mae'n cynnwys gwybodaeth ffeithiol, gweithgareddau ac adnoddau i helpu pobl ifanc feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach o gyfoeth ieithyddol a diwylliannol Wcráin.

Cafodd deunyddiau'r pecyn hwn eu llunio i fod yn hyblyg ac addasadwy – i'w defnyddio mewn amryw o ffyrdd ac amgylchiadau. Gellir eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer gwersi unigol a gwasanaethau boreol, neu fel rhan o brosiectau traws-gwricwlaidd ehangach ar gyfer amrywiaeth o wahanol bynciau. Bydd cyfle i'ch dysgwyr ddysgu sut i gyfarch ffrind mewn Wcraneg, dangos doniau creadigol drwy addurno wyau, dysgu am sgiliau brodwaith traddodiadol a phob math o ddathliadau a gwyliau Wcreinaidd. Hefyd, bydd cyfle iddynt ddarllen llythyron gan blant o wahanol rannau o Wcráin, rhoi cynnig ar rysáit poblogaidd a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau dosbarth pwrpasol a chyraeddadwy.

Chi fel athrawon fydd yn gwybod sut orau i addasu'r gweithgareddau hyn ar gyfer eich dysgwyr, ac mae digon o gyfleoedd hefyd i gynnig cymorth ychwanegol neu ymestyn y gweithgareddau ar gyfer dysgwyr eich dosbarth.

Mae'r adnoddau'n edrych ar wahanol agweddau o fywyd yn Wcráin. Ond, mae'n bwysig i gyflwyno'r pynciau hyn yn sensitif, yn enwedig o gofio'r newyddion dyddiol am holl effeithiau'r gwrthdaro yn Wcráin, a chwestiynau posibl gan eich dysgwyr am y rhyfel a digwyddiadau mawr y byd.

Hefyd, yn adran Darganfod Mwy y pecyn hwn, mae dolenni i bob math o adnoddau gan sefydliadau cyfrifol a dibynadwy am ffyrdd o drafod rhyfel a gwrthdaro gyda'ch dysgwyr, os yw hynny'n briodol. Cofiwch ystyried angenion emosiynol a llesiant eich dysgwyr yn ofalus a chreu amgylchedd yn y dosbarth lle gellir rhannu cwestiynau a theimladau mewn modd ystyrlon a pharchus.



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gadewch i ni ddysgu mwy am Wcráin | 5 |
| Cyflwyniad i'r iaith Wcraneg | 7 |
| Llenyddiaeth Wcreinaidd i Blant | 9 |
| Gwyliau a dathliadau Wcreinaidd | 13 |
| Celfyddydau a chrefftau Wcreinaidd | 14 |
| Llythyrau o Wcráin | 17 |
| Rysáit traddodiadol o Wcráin | 21 |
| Cynnal digwyddiad i ddathlu iaith a diwylliant Wcráin | 22 |
| Darganfod Mwy | 23 |


#Ukraineculturepack

# Gadewch i ni ddysgu mwy am Wcráin

## Ffeithiau i'w rhannu gyda'ch disgyblion

Mae Wcráin yn wlad fawr iawn yn Nwyrain Ewrop. Mae ganddi dreftadaeth ddiwylliannol cyfoethog a thirweddau hardd iawn. Mae'n ffinio â saith o wledydd, sef: **Gwlad Pwyl, Moldofa, Slofacia, Hwngari, Rwmania, Rwsia a Belarws**.










## Oeddech chi'n gwybod...



- Enw'r brifddinas yw Kyiv, ac enw'r arian maen nhw'n ei ddefnyddio yn Wcráin yw'r Hryvnia Wcreinaidd (UAH).
- Mae banner enwog Wcráin yn cynnwys dau liw – hirsgwar llorweddol glas uwchben hirsgwar llorweddol melyn. Mae'r rhain yn cynrychioli'r awyr dros gaeau grawn eang.
- Mae hinsawdd a phridd ffrwythlon Wcráin yn creu amodau delfrydol i dyfu llawer o gnydau gan gynnwys gwenith, betys siwgr, hadau blodau'r haul, llysiau a ffrwythau.
- Mae allforion o Wcráin yn cynnwys neon, sy'n cael ei ddefnyddio i greu sglodion cyfrifiadurol.
- Enw gwisg draddodiadol Wcráin yw Vyshyvanka. Mae gan bob rhanbarth o'r wlad eu cynlluniau hardd ac arbennig eu hunain.
- Blodyn yr Haul yw blodyn cenedlaethol Wcráin. Y geiriosen yw'r ffrwyth cenedlaethol, a'r eos yw'r aderyn cenedlaethol.
- Un o brydau bwyd poblogaidd Wcráin yw borscht – cawl betys arbennig â lliw coch tywyll dwfn.
- Ar y 6ed o Ragfyr mae trigolion Wcráin yn dathlu Diwrnod Sant Niclas. Ar y diwrnod arbennig yma mae plant Wcráin yn ffeindio losin a bisgedi o dan eu gobennydd!




## Gweithgareddau

Mae Blodau'r Haul yn rhan annatod o ddiwylliant Wcráin – yn cynrychioli gobaith, heddwch a gwytnwch. Maen nhw hefyd yn bwysig o ran bioamrywiaeth gan eu bod yn denu gwenyn a phob math o beillwyr eraill. Beth am ddechrau eich cyfnod o ddysgu am Wcráin drwy annog eich dysgwyr i greu blodau haul lliwgar – i addurno eich ystafell ddosbarth? Gallwch ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a dulliau i greu eich blodau haul. Gall y dysgwyr baentio neu dynnu llun, defnyddio crefftau papur a collage, peintio â bysedd neu ddefnyddio platiau papur i greu'r blodau, a llenwi'r ystafell ddosbarth â blodau haul bendigedig.

Penderfynodd un ysgol yn Shropshire ddathlu ei phartneriaeth ag ysgol yn Wcráin drwy ddefnyddio dull origami i greu blodau haul papur. Cewch hyd i gyfarwyddiadau ar gyfer hynny, yn ogystal ag amrywiaeth o gynlluniau ar gyfer blodau'r haul yn adran Darganfod Mwy y pecyn hwn.



Disgyblion Ysgol Santes Fair yr Eglwys yn Lloegr, Shawbury, yn creu blodau'r haul o bapur origami



Os ydych yn cyflwyno'r gwersi hyn yn nhymor y gwanwyn, gallai'r dysgwyr blannu hadau blodau'r haul mewn pridd neu gompost mewn potiau bach. Yna, wrth i'r blodau dyfu, efallai y gallwch eu symud y tu allan – i lain o dir yr ysgol. Anogwch y dysgwyr i ddyfrio eu blodau'n gyson a mesur a chofnodi twf y blodau. Gallech roi gwobr i'r blodyn haul talaf a'r garddwr mwyaf ymroddgar!

## Gweithgareddau gydag ysgol bartner

Os ydych chi'n gweithio gydag ysgol bartner, gallech rannu lluniau o'ch ystafell ddosbarth wedi'i gorchuddio â blodau'r haul, yn ogystal â'r blodau talaf a blannwyd tu allan!

#**Ukraineculture**pack



# Cyflwyniad i’r Iaith Wcraneg

## Gweithgareddau

**Amcanion Dysgu:** Dysgu am yr wyddor Wcraneg a chyfarchion, rhifau a geirfa.

**Cysylltiadau Cwricwlwm:** Ieithoedd, Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economaidd.

**Sgiliau trosglwyddadwy a gwerthoedd:** Cyfathrebu a chydweithio, empathi.

**Adnoddau:** Bydd angen copïau o’r ymadroddion a’r rhifau Wcraneg ar sleidiau ac yn y pecyn arnoch, yn ogystal â mynediad i’r rhyngrwyd.

Mae gallu cyfathrebu mewn ieithoedd eraill yn sgil ardderchog i bobl ifanc ei datblygu. Trafodwch natur a defnydd gwahanol gyfarchion geiriol ac aneiriol gyda’ch dysgwyr. Pam ydyn ni’n eu defnyddio? Faint o wahanol gyfarchiadau ydyn ni’n eu defnyddio yn Gymraeg? Gofynnwch i’r dysgwyr ddangos sut y byddent yn cyfarch ffrind, aelod hŷn o’u teulu, Pennaeth yr ysgol neu aelod o’r teulu brenhinol! Trafodwch y gwahaniaethau rhwng dulliau cyfarch gwahanol bobl. Gofynnwch i’r dysgwyr faint o gyfarchion maen nhw’n eu gwybod mewn ieithoedd eraill. Gallech arddangos y rhain ar boster yn yr ystafell ddosbarth.

## Gweithgareddau

Anogwch eich dysgwyr i roi cynnig ar yr ymadroddion hyn yn Wcraneg gyda phartner. Mae canllawiau ynganu ffonetig yn y cromfachau a gallwch wrando ar yr ymadroddion drwy dapio’r dolenni sain ar gyfer pob ymadrodd yn ei dro.


| | |
|---|---|
| **Helo** (anffurfiol) | Привіт (pry-vIt) |
| **Sut wyt ti? Shwmae / Su’mae?** | Як справи? (jak sprA-vy) |
| **Da iawn, diolch!** | Добре, дякую! (dO-bre, djA-ku-ju) |
| **Beth yw dy enw di?** | Як тебе звати? (jak te-bE zvA-ty |
| **Fy enw i yw…** | Мене звати… (me-nE zvA-ty) |
| **Neis i gwrdd â ti!** | Праиємно познайомитися (pty-jEm-no po-zna-jO-my-ty-sia) |
| **Hwyl!** | Бувай! (bu-vAj) |

Gallai’r dysgwyr roi cynnig ar ddefnyddio’r ymadrodd, “Веселого свята!” (Veseloho sviata!). Ei ystyr yw: “(Dydd) Gŵyl Hapus!” neu “Hwyl yr ŵyl i chi!”.



Mae'r wyddor Wcraneg yn wahanol i'r wyddor Gymraeg neu'r wyddor Saesneg. Mae'r wyddor Wcraneg yn wyddor Syrilig ac mae'n cynnwys 33 o lythrennau. Mae rhai llythrennau'n edrych neu'n swnio'n debyg i'r wyddor rydyn ni ei defnyddio, ond mae eraill yn gwbl unigryw.

Rhannwch gopi o'r wyddor gyda'r dysgwyr fel y gallant gymharu llythrennau Wcraneg â'r llythrennau maent yn gyfarwydd â nhw, a dechrau ymarfer defnyddio llythrennau Wcraneg.




Hefyd, gall eich dysgwyr roi cynnig ar gyfrif o un i ddeg mewn Wcraneg gan ddefnyddio'r canllaw isod:

**Rhifau mewn Wcraneg, o 1 i 10:**

1 **один** (odyn)

2 **два** (dva)

3 **три** (try)

4 **чотири** (čotyry)

5 **п'ять** (p'jat')

6 **шість** (šist')

7 **сім** (sim)

8 **вісім** (visim)

9 **дев'ять** (dev'jat')

10 **десять** (desjat')

Ar ôl i'ch dosbarth feistroli hyn, gallwch eu rhannu'n dimau o ddeg ac ysgrifennu'r rhifau Wcraneg ar gardiau. Cymysgwch y rhifau, a rhowch un yr un i bob plentyn yn y tîm. Yna, ar arwydd gennych, amserwch faint mae'n ei gymryd iddynt drefnu eu hunain yn y drefn gywir – o un i ddeg. A fydd y tîm nesaf yn gallu trefnu eu hunain yn gyflymach?



# Llenyddiaeth Wcreinaidd i Blant

## Gweithgareddau

**Amcanion dysgu:** Tanio chwilfrydedd disgyblion gyda stori enwog o Wcráin i blant. Cyflawni gweithgareddau i ddyfnhau eu dirnadaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltiad â'r testun.

Annog darllen ac ysgrifennu er pleser.

**Cysylltiadau Cwricwlwm:** Cymraeg, Celf

**Sgiliau trosglwyddadwy a gwerthoedd:** Cyfathrebu a chydweithio, creadigrwydd a defnyddio dychymyg.

**Adnoddau:** Bydd angen copïau o'r darnau o 'Y Toreadoriaid o Vasyukivka', a deunyddiau celf.

## Gwybodaeth i'w rannu gyda'ch disgyblion

Mae Wcráin yn enwog am ei llenyddiaeth a chyfoeth ei thraddodiad storïol. Roedd Vsevolod Nestaiko yn un o awduron plant enwocaf Wcráin. Mae ei lyfrau wedi cael eu cyfieithu i lawer o ieithoedd ledled y byd, ac maen nhw'n rhan o gwricwlwm ysgolion yn Wcráin.

Daw'r rhannau sy'n dilyn o un o'i lyfrau enwocaf, sef 'Y Toreadoriaid o Vasyukivks'.

Mae'r llyfr yn adrodd stori dau ffrind, sef Yava a Pavlushka. Pavlushka sy'n adrodd y stori. Mae'r ddau ffrind yn byw mewn pentref bach yn Wcráin o'r enw Vasyukivka. Mae'r ddau ohonynt wastad yn chwilio am antur a phrofiadau newydd, gwallgof a chyffrous – achos maen nhw eisiau bod yn fyd-enwog! Ond bron bob tro, mae pethau'n mynd o le!

Mae hwn yn lyfr am gyfeillgarwch a dewrder sydd wedi ennill nifer o wobrwyon rhyngwladol. Yn 1979 cafodd ei gynnwys ar Restr Anrhydedd Hans Christian Andersen – sy'n dathlu gweithiau arbennig ym maes llenyddiaeth plant modern.

Yn y rhan yma o'r stori, mae Yava a Pavlushka yn penderfynnu cynnal gornest ymladd teirw gyda buwch ddof a ddiniwed o'r pentref – er mwyn bod fel y toreadoriaid dewr yn Sbaen.

## Gweithgareddau

Darllenwch Darn 1 gyda'ch dysgwyr a gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol gyda phartner:

- Pwy sy'n adrodd y stori, a ble mae'r stori'n digwydd?
- Beth oeddech chi'n ei hoffi am y darn yma?
- Oedd unrhyw beth doeddech chi ddim yn ei hoffi?
- Oeddech chi'n deall popeth yn y darn? Oedd unrhyw beth doeddech chi ddim yn ei ddeall?
- Oedd unrhyw ran o'r stori yn eich synnu chi?
- Sut fyddech chi'n disgrifio'r ddau fachgen? Rhowch enghreifftiau i esbonio eich barn amdanyn nhw.
- Ydych chi'n meddwl fod moeswers yn y darn yma? Os felly, beth dych chi'n meddwl yw'r wers yna?

Gofynnwch i'ch dysgwyr ail-dddarllen y stori gyda'i gilydd mewn parau – hyd at y frawddeg: **"Fe yrron ni'r ddwy fuwch i ben pellaf y cae, ger y pwll dŵr, yn bell o olwg pawb."**

Gofynnwch i'ch dysgwyr ddefnyddio'r deunyddiau celf i greu llun o'r olygfa yma. Anogwch y plant i gynnwys geiriau a/neu ymadroddion o'r stori yn eu gweithiau celf – i ddangos beth mae'r bechgyn yn ei wisgo a'i gario, ble mae'r antur yma'n digwydd a'r stori a'r tywydd yn y stori. Gallent ychwanegu swigod â geiriau neu feddyliau'r cymeriadau uwch eu pennau – i ddangos beth maen nhw'n meddwl yw teimladau neu feddyliau Yava, Pavlushka a 'Cyfraniad' (y fuwch) yn y rhan yma o'r stori.

Gofynnwch i'ch dysgwyr rannu eu lluniau a'u disgrifiadau gyda'i gilydd, a thrafod beth sydd wedi gweithio'n dda. Yn y wers nesaf, gofynnwch iddynt greu stribed comig gyda swigod meddyliau a geiriau sy'n adrodd stori'r darn cyfan. Gallant wneud hyn yn unigol neu mewn grwpiau bach gan ddefnyddio deunyddiau celf neu adnoddau digidol.

# Darn 1 – ‘Y Toreadoriaid o Vasyukivka’ gan Vsevolod Nestaiko

*Drannoeth, fe gwrddon ni ar y llwybr oedd yn arwain i’r cae. Roeddwn i’n gyrru Man’ka (y fuwch) ac roedd Yava’n gyrru Cyfraniad (y fuwch arall). Roedd y ddwy fuwch yn cerdded ling-di-long ac yn chwipio’u cynffonau’n ddiog. Doedd dim syniad gyda nhw fod hwn yn mynd i fod yn ddiwrnod hanesyddol.*

*Roedd Yava’n gwisgo het menyw gydag ymyl mawr llydan – roedd un o’r ymwelwyr haf wedi’i gadael yn ein dacha[1] ddwy flynedd yn ôl. Roedd yr het yn llawer rhy fawr iddo ac yn llithro i lawr dros ei lygaid drwy’r amser. Bob hyn a hyn, roedd e’n gorfod taflu’i ben yn ôl i weld ble roedd e’n mynd a pheidio baglu – roedd e’n edrych fel rhywun yn trio cerdded a moesymgrymu ar yr un pryd.*

*Roeddwn i’n cario ryg bach dan fy nghesail. Roedd hwn yn ryg enwog. Roedd y ryg yma wedi bod o gwmpas ers cyn cof. Dyma’r ryg oedd wedi bod ar fy ngwely ers i mi gael fy ngeni. Ryg fach goch, gyda thri chi bach doniol wedi’u brodio arno. Roedd y tri’n eistedd gyda’i gilydd â’u pennau’n cyffwrdd. Eu henwau oedd Tsiutsia, Hava, a Reva. Amser gwely, byddai fy mam yn adrodd straeon amdanyn nhw wrtha i. Yn ôl mam, enw’r math yma o straeon oedd banaliuky[2]. Bob nos byddai hi’n adrodd straeon nes ’mod i’n syrthio i gysgu. Ers dwy flynedd, ers i fi dyfu i fyny, roedd y ryg goch wedi bod yn gorwedd mewn cist, a nawr roedd Tsiutsia, Hava, a Reva yn drewi o beli camffor.*

*Gyda’r het ar ben Yava a’r ryg goch dan fy nghesail i, ro’n ni bron yn barod. Ar ôl torri dau frigyn o goeden collen i’w defnyddio fel cleddyfau, roedd gyda ni bopeth yr oedd ei angen i fod yn Doreadoriaid.*

*Ar hyd y ffordd, ro’n ni’n canu aria Jose o’r opera Carmen gan Bizet – cân ro’n ni wedi’i chlywed yn aml ar y radio.*

*Ro’n ni’n bloeddio canu, heb wybod beth oedd o’n blaenau.*

*Roedd yr awyr yn las dwfn tywyll – fel yr awyr yn Sbaen.*

*Roedd y tywydd yn berffaith ar gyfer ymladd teirw.*

*Fe yrron ni’r ddwy fuwch i ben pellaf y cae, ger y pwll dŵr, yn bell o olwg pawb.*

*“Cer â Man’ka draw i’r ochr – allan o’r ffordd.” meddai Yava..*

*“Ac yna gallwn ni ddechrau”, ychwanegodd.*

*Wnes i ddim dadlau achos roedd Man’ka yn nerfus iawn – a byddai gweld gornest ymladd teirw yn siwr o godi ofn arni.*

*Gwthiodd Yava ei het ‘nôl a thynnodd ei drowsus i fyny. Cydiodd yn fy ryg goch i. Yna, ar flaenau’i draed, fe ddawnsiodd draw at Cyfraniad.*

*Aeth reit lan at ei thrwyn, cyn chwifio’r ryg goch yn ei hwyneb.*

*Stopiais anadlu. Unrhyw eiliad nawr byddai’r ornest yn dechrau...*

*Chwifiodd Yava’r ryg goch yn fwy ffyrnig.*

*Cyfraniad? Doedd dim diddordeb gyda hi o gwbl.*

*Fe gariodd hi ymlaen i fwyta gwair. Yn hapus braf.*

*Chwipiodd Yava’r ryg ar draws ffroenau’r fuwch. Ond dyma Cyfraniad yn troi ei phen o’r ffordd.*

*Yna, gan symud yn ddiog o un droed i’r llall, dyma hi’n troi rownd a throi’i phen ôl at Yava.*

*Rhedodd Yava rownd at ei thrwyn eto.*

*Ar ôl hanner awr, dywedodd:*

*“Y broblem yw – mae hi’n nabod fi’n rhy dda. Mae’n amlwg bod hi’n fy ngharu i. Reit – dy dro di nawr!”*

*Ar ôl awr, roeddwn i allan o wynt yn llwyr.*

*Dywedais: “Nid buwch yw hon – mae hi fel boncyff coeden! Biti bod dim cyrn gan Man’ka – neu baswn i’n dangos gornest ymladd teirw go iawn i ti.”*

*Tro Yava oedd hi eto – ac roedd ganddo dactegau newydd:*

*Weithiau byddai’n cripio i fyny’n dawel bach, a chwipio’r ryg yn sydyn; weithiau byddai’n rhuthro’n syth ati hi; yna rhuthro ati o’r ochr. Ond roedd Cyfraniad yn gwrthod ymladd.*

*Ro’n ni’n diferi o chwys. Roedd y ryg goch yn crynu’n nerfus yn ein dwylo, a ro’n i’n siwr fod Tsiutsia, Hava, a Reva ar fin dechrau cyfarth.*

*Cyfraniad? Doedd hi’n poeni dim – doedd dim ots beth ro’n ni’n gwneud.*

*Unwaith, pan gydiodd Yava yng nghlust Cyfraniad, edrychodd hi arno gyda’i llygaid trist fel petai*

*ar fin rhoi stŵr iddo, ac yna dywedodd:*

*"Mŵŵ-ŵŵ-ŵŵ!"*

*Petai chi'n gallu cyfieithu iaith gwartheg, roedd hi siwr o fod yn dweud: "Fechgyn, ewch o 'ma. Gadewch lonydd i fi."*

*Ond doedden ni ddim yn gallu deall rhybudd y fuwch.*

*Ro'n ni'n dal i neidio o'i chwmpas, a'i herio i ymladd â ni. Roedd yn amlwg fod Yava yn teimlo embaras llwyr gydag ymddygiad Cyfraniad.*

*Collodd Yava ei dymer, a gwaeddodd:*

*"Dere, Pavlusha! Bwra hi gyda'r ryg neu fe wna i!"*

*Roedd e'n chwyrlio'r ryg yn yr awyr. Ac yna'n sydyn...yn sydyn fe welais i Yava'n hedfan drwy'r awyr – yn gweiddi nerth ei ben:*

*"Waa-aaaaaa!"*

*Wrth iddo hedfan drwy'r awyr, roedd e'n edrych fel petai e'n trio rhedeg. Ond pan fwrodd ei draed y ddaear, doedd e ddim yn gallu stopio.. Ac i mewn â fe i'r pwll.*

*Rhedais i mewn ar ei ôl – yr unig ffordd o ddianc rhag y fuwch wallgo. Sblashodd y ddau ohonom i ganol y pwll, gan greu ffynhonau uchel o ddŵr a mwd.*

*Â dweud y gwir, nid 'pwll' yw'r gair cywir i'w ddisgrifio. Roedd pwll mawr yn arfer bod yno.. Ond roedd y dŵr wedi sychu ers blynyddoedd, a nawr doedd e'n ddim mwy na kalabanya*[3]*.*

*Ar ei fwyaf dwfn, roedd y dŵr llaid siwr o fod i fyny at ein gyddfau. A dyna lle ro'n ni nawr, reit yn y canol – yn pwffian ac allan o wynt.*

*Roedd Cyfraniad yn rhedeg rownd a rownd y kalabanyo – yn mŵŵio a rhegi yn ei hiaith ei hun. Doedd hi ddim eisiau mynd ar gyfyl y kalabanya. Roedd hi'n fuwch nerfus a gofalus. Ro'n ni'n gwybod hynny.*

*Safodd y ddau ohonom ynghanol y pwll – mewn tawelwch llwyr.*

*Roedd gwaelod y kalabanya'n feddal a lleidiog. Ro'n ni lan at ein boliau mewn llaid ffiaidd a seimllyd.*

*Roedd ychydig bach o ddŵr brwnt yn y pwll – ond dim ond o'n boliau i'n gyddfau. Roedd y gweddill yn fwd mochaidd a drewllyd. Slwtsh ofnadwy. Buon ni'n sefyll yn y llaca drewllyd am o leiaf hanner awr – nes i Cyfraniad dawelu a mynd i ffwrdd.*

*Chwarae teg, roedd Cyfraniad yn fuwch nobl a charedig iawn achos roedd hi wedi defnyddio'i phen i roi hergwd i Yava'r Toreador – ac nid ei chyrn.*

*O'r diwedd, dyma ni'n dringo allan o'r kalabanya, yn frwnt a phenisel fel moch bach. Wnaeth hi ddim rhoi stŵr i ni, na hyd yn oed edrych yn gas. Ac roedd pawb dal yn ffrindiau. Ar ôl hynny, fuodd Yava byth yn gas wrthi hi eto. A phan fyddai ei fam yn rhoi losin iddo, byddai'n eu rhannu gyda Cyfraniad y fuwch.*

## Gweithgaredd ymestyn

Yng ngweddill y nofel mae'r ddau ffrind yn cael pob math o anturiaethau a throeon trwstan doniol gyda'i gilydd. Un tro, wrth geisio cuddio rhag dau ddyn (Knysh a Burmylo) maen nhw'n amau sy'n ysbïwyr, mae'r ddau ffrind yn mynd ar goll mewn cae anferth o ŷd sy'n dalach na nhw!

Gofynnwch i'ch dysgwyr ddarllen y darn byr isod sy'n dod o'r rhan yna o'r llyfr.

*Roedd Knysh a Burmylo yn dal i gerdded ar hyd y ffordd wrth i Yava a fi redeg drwy'r ŷd – yn cadw'n isel yn ein cwrcwd. Ro'n ni wedi rhedeg llai na chan metr i mewn i'r cae pan stopiodd Knush yn sydyn, a dweud:*

*"Hei, gwranda – dw i'n credu fod dynion yn ein dilyn ni.."*

*"Ble? Gad iddyn nhw drio!" meddai Burmylo yn flin.*

*"Draw fan 'na, yn y cae ŷd."*

*"Dere, fe dorrwn ni drwy fan hyn. Gawn ni weld nawr..."*

*Dyma Yava a fi'n sgrialu fel sgwarnogod ar ein pedwar – yn bellach i mewn i'r cae ŷd.*

*Roedd y dail garw yn siffrwd yn slei o'n cwmpas. Doedden ni ddim yn siwr os mai'r gwynt oedd yn gwneud y sŵn, neu os oedd rhywun yn dod tuag atom ni. Ro'n ni'n siwr fod Knysh a Burmylo reit uwch ein pennau – yn barod i sathru arnom ni fel pryfed bach.*

[1]dacha – tŷ neu fwthyn bach yn y wlad. Yn aml yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwyliau tymhorol.

[2] banaliuky – gair Wcraneg am straeon syml – yn aml yn ddigri a di-bwys – 'straeon bach bob dydd' neu 'straeon llên gwerin byr'.

[3] kalabanya – gair Wcraneg am bwll bas yn llawn llaid a llaca.

*Wrth gropian ymhellach i mewn i'r cae, roedd gen i'r teimlad 'oh-oh-oh' yna yn fy stumog.*

*Roedd fy mhen-gliniau wedi sgathru i gyd. Stopiais, a gwasgu fy hun i'r llawr.*

*"Alla i ddim mynd dim pellach! Gad iddyn nhw sathru arna i!"*

*Ond wnaeth neb sathru arna i.*

*Gorweddais yno am ychydig, a gwrando.*

*Sh-shchr-shchr... shrr-schr... shsh-schr...*

*Roedd yr ŷd yn dal i siffrwd o fy nghwmpas ymhobman.*

*Ond doedd dim sôn am Knysh, na Burmylo.... na Yava.*

*Gweld unrhyw beth? Dim gobaith. Doeddwn i methu gweld ymhellach na fy nhrwyn – dim ond trwch o ddail ŷd i bob cyfeiriad.*

*Waw! Mae'r ŷd 'ma'n drwchus – yn fwy trwchus nag unrhyw jwngl.*

*Gorweddais yno am ychydig, a gwrando'n astud. Dim byd. Dim byd o gwbl. Ble mae Yava? Ro'n i'n siwr ein bod ni wedi bod yn cropian wrth ochr ein gilydd.*

*"Yava!" sibrydais o'r diwedd*

*Dim smic.*

*"Yava!" galwais, ychydig yn uwch.*

*Dim ateb o hyd.*

*Dyma fi'n cropian un ffordd, wedyn y llall.*

*"Yava!" gwaeddais.*

*Damo! Knysh a Burmlo? Rhaid bod ni wedi eu colli nhw erbyn hyn. Wedi mynd! Wedi sgrialu o 'ma – ma' nhw siwr o fod yn y gors erbyn hyn.*

*"YAVA!" gwaeddais nerth fy mhen.*

*"YAVA! Hei! Ble wyt ti?"*

*"Shhhh!" meddai Yava – roedd ei lais yn bell i ffwrdd, ac yn swnio'n rhyfedd.*

*"Bydd yn dawel"*

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod syniadau dyfeisgar gyda phartner a cheisio dychmygu pa fath o gynllun cyfrwys gall y ddau ffrind ei ddyfeisio i ddianc o'r sefyllfa anodd yma. Sut gallant ffeindio ei gilydd, ffeindio'u ffordd allan o'r cae ŷd anferth a dychwelyd adre?

Anogwch y dysgwyr i ysgrifennu eu fersiynau eu hunain, yn eu geiriau eu hunain, o'r rhan yma o'r stori. Yn ogystal, gallwch drafod syniadau am anturiaethau posib eraill y ddau ffrind wrth iddynt geisio dod yn fyd-enwog!




Awdur: Vsevolod Nestayko; Darlunydd: Rostyslav Popsky

Cyhoeddwr: A-ba-ba-ga-la-ma-ga

## Gweithgaredd gydag ysgol bartner

**Os ydych chi'n gweithio gydag ysgol bartner, gallech:**

Rannu eich lluniau, stribedi comig a darnau o ysgrifennu creadigol, a threfnu picnic llyfrau – lle gall staff, rhieni a disgyblion ymlacio, bwyta snaciau a thrafod eu hoff lyfrau, stribedi comig a nofelau graffig.

Gofynnwch i bawb ddod â hoff stori antur neu lyfr lluniau – gyda nodyn gludiog arnynt yn esbonio pam eu bod am rannu'r stori arbennig yma gyda phawb.

Gallwch gyfnewid a rhannu ffotograffau a chlipiau o'r digwyddiadau hyn gyda'ch ysgol bartner. Mae ymchwil 'Darllen Er Pleser' y Brifysgol Agored yn dangos y gall amgylcheddau darllen cymdeithasol fel hyn wneud gwahaniaeth i'r ffordd mae plant yn mwynhau llyfrau a'u hannog i ddarllen er pleser.

# Gwyliau a dathliadau Wcreinaidd

## Gwybodaeth i'w rannu â'ch dysgwyr

Mae pobl yn Wcráin yn dwlu ar ddathlu gwyliau ar hyd y flwyddyn. Yn aml mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys cerddoriaeth, dawnsio, bwydydd a thraddodiadau arbennig. Mae Wcrainiaid yn dathlu gwyliau crefyddol fel y Nadolig a'r Pasg, gwyliau cenedlaethol, a digwyddiadau diwylliannol bywiog fel Diwrnod Vyshyvanka.

Bydd cyfle i ddarganfod mwy am wyliau a dathliadau yn Wcráin drwy ddarllen y llythyron gan blant yn nes ymlaen yn y pecyn hwn.



Mae **Diwrnod Vyshyvanka** yn cael ei ddathlu yn Wcráin bob blwyddyn ar y trydydd Dydd Iau ym mis Mai – diwrnod i ddathlu crysau traddodiadol â brodwaith arbennig a elwir yn 'Vyshyvanka'. Ar Ddiwrnod Vyshyvanka, mae Wcraniaid o bob oed yn gwisgo eu crysau 'Vyshyvanka'. Mae'r rhain yn grysau arbennig wedi'u brodio â phatrymau cywrain lliwgar. Mae gan wahanol rannau o'r wlad eu patrymau unigryw eu hunain. Mae'r crysau'n symbol o falchder cenedlaethol a threftadaeth ddiwylliannol Wcráin. Ar Ddiwrnod Vyshyvanka mae strydoedd, ysgolion a gweithleoedd y wlad yn llawn o bobl yn gwisgo'r crysau hardd yma – gan greu teimlad o undod cenedlaethol, a rhoi cyfle i bobl ddangos a dathlu eu cysylltiad â thraddodiadau Wcreinaidd.

Mae'r **Pasg** yn un o'r dathliadau pwysicaf yn Wcráin. Mae teuluoedd yn dod at ei gilydd i addurno wyau â phatrymau lliwgar – i greu wyau 'pysanky' hardd, sy'n dod â lwc dda a hapusrwydd. Mae'r patrymau cywrain hyn wedi'u seilio ar gynlluniau celf werin. Yn draddodiadol defnyddir llifynnion a chwyr twym i greu'r patrymau ar yr wyau, ond gellir eu paentio hefyd. Yn aml, mae pobl yn mynd i'r eglwys ar fore'r Pasg gyda basgedi o fwyd arbennig – i'w bendithio. Ar ôl y gwasanaeth mae pawb yn mwynhau gwledd arbennig gyda'u teuluoedd.



Ar y cyntaf o fis Medi, mae pobl ledled Wcráin yn dathlu **Den Znan** neu **Ddiwrnod Gwybodaeth**. Mae'r ŵyl yma'n nodi dechrau blwyddyn ysgol newydd. Mae plant yn gwisgo'u dillad gorau ac yn dod â blodau i'w hathrawon ar gyfer dathliad llawen yn yr ysgol.



# Celfyddydau a Chrefftau Wcreinaidd

## Gweithgareddau

**Amcanion Dysgu:** Dylunio cynlluniau a phatrymau tebyg i gynlluniau wyau peintiedig a brodwaith traddodiadol Wcreinaidd.


Dysgu am artist enwog o Wcráin.

**Cysylltiadau Cwricwlwm:** Celf a dylunio, sgiliau llafar.

**Sgiliau trosglwyddadwy a gwerthoedd:** Cyfathrebu a chydweithio, creadigrwydd a defnyddio dychymyg.

**Adnoddau:** Bydd angen: copïau o batrymau Pysanky a Vyshyvanka arnoch, paent, papur graff, pensiliau lliw, binka, edafedd brodio, nodwyddau a siswrn.

Copïau o ddarluniau anifeiliaid gan Maria Prymachenko a lluniau neu lyfrau â lluniau o anifeiliaid.



Dysgwr o YGG Pontybrenin, Abertawe yn dangos ei brodwaith

Gofynnwch i'ch dysgwyr arbrofi gyda chelfyddydau a chrefftau traddodiadol Wcreinaidd drwy greu eu cynlluniau Pysanky a Vyshyvanka eu hunain.

Gellir cynllunio'r patrymau ar gyfer yr wyau ar bapur neu gerdyn, neu gellir eu llunio ar bapur siwgr tywyll â phaent olew pastel llachar. Neu, os ydych chi'n teimlo'n ddewr – gallwch baentio'n uniongyrchol ar wyau! Anogwch y dysgwyr i arbrofi gyda gwahanol gynlluniau a lliwiau cyn creu eu gwaith terfynol i'w arddangos.

Hefyd, gall eich dysgwyr roi cynnig ar batrymau pwyth croes syml – i greu eu cynlluniau Vyshyvanka eu hunain.

### Bydd angen:

- Papur graff
- Pensiliau a phensiliau lliw
- Binka (deunydd pwyth croes)
- Edafedd brodio (amrywiaeth o liwiau)
- Nodwydd (heb bwynt miniog)
- Siswrn


### Cyfarwyddiadau

- Dangoswch rai enghreifftiau o batrymau Vyshyvanka syml i'r dysgwyr i'w hysbrydoli. Dangoswch sut i wnïo patrwm pwyth croes syml – os nad yw'r dysgwyr wedi gwneud hyn o'r blaen.
- Dechreuwch gyda chefn y ffabrig gan dynnu'r nodwydd drwy dwll. Defnyddiwch siap 'X' syml i lenwi pob sgwâr yn eich cynllun/patrwm. Rydych yn creu pob croes yn ei thro drwy fynd ag un pwyth o'r gwaelod ar y chwith i'r top ar y dde, ac yna un arall, o'r gwaelod ar y dde i'r top ar y chwith. Mae llawer o ganllawiau ar gael ar-lein.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio papur graff i greu patrwm syml sy'n ailadrodd. Gallai'r patrwm gynnwys blodyn neu seren. Atgoffwch y dysgwyr fod patrymau Vyshyvanka yn aml yn defnyddio lliwiau llachar a siapiau cyson.
- Gofynnwch i'r dysgwyr liwio pob sgwâr ar y papur – i ddangos pa liw edafedd y byddan nhw'n ei ddefnyddio. Mae'r sgwariau hyn yn cynrychioli'r pwythau y byddant yn eu gwneud. Anogwch y dysgwyr i gael hwyl a bod yn greadigol!
- Rhowch ddarn bach o ffabrig binka (ffabrig pwyth croes) i bob dysgwr. Dylai fod yn ddigon o faint ar gyfer y cynllun sydd ganddynt – gan adael ychydig o le dros ben o gwmpas yr ymylon i greu border. Yna rhannwch y cyfarwyddiadau canlynol:

1 Rhowch yr edafedd drwy’r nodwydd.

2 Dewiswch liw cyntaf eich darn cyntaf o edafedd brodio. Torrwch ddarn – tua hyd eich braich – a rhowch e drwy lygad y nodwydd. Clymwch gwlwm ym mhen yr edafedd.

3 Dechreuwch bwytho





4 Dilynwch eich patrwm

5 Pwythwch bob sgwâr lliw, gan newid lliw edafedd fel bo’r angen. Cofiwch ddechrau unrhyw liw newydd gyda chwlwm newydd.

6 Ar ôl gorffen pwytho eich cynllun, clymwch gwlwm bach yng ngweddill yr edafedd wrth gefn y ffabrig. Torrwch unrhyw ddarnau o edafedd sbâr.

7 Dangoswch eich gwaith!

Gallwch roi eich cynllun Vyshyvanka mewn carden, ar lyfrnod neu ei hongian fel llun bychan.

# Darganfod artist o Wcráin

## Gwybodaeth i'w rannu gyda'ch dysgwyr

Roedd Maria Prymachenko yn artist celf werin enwog a ddysgodd ei hunan. Cafodd ei geni yn 1908 ym mhentref Bolotria. Pan roedd hi'n ifanc, cafodd ei tharo'n sâl â pholio. Yn ystod blynyddoedd ei salwch, dysgodd mam Maria sgiliau brodwaith a chelfyddyd addurno wyau pysanka iddi. Ymhen amser daeth yn enwog am greu golygfeydd lliwgar a llawn dychymyg. Roedd llawer o'i gwaith yn cynnwys anifeiliaid anhygoel a phatrymau lliwgar.

## Gweithgareddau

Rhannwch ddetholiad o luniau Maria Prymacenko o anifeiliad chwedlonol gyda'r dosbarth. Gofynnwch iddynt ddewis un llun ac yna trafod y llun gyda phartner gan ddefnyddio'r canllawiau isod:

Cewch hyd i enghreifftiau o luniau drwy adnodd gwych yr Oriel Genedlaethol i athrawon – sy'n helpu pobl ifanc i edrych ar ddarluniau a siarad amdanynt.

- Edrychwch yn ofalus iawn ar y llun am 60 eiliad. Nawr, caewch eich llygaid – faint dych chi'n gallu cofio am y llun? Gall eich partner ddal i edrych ar y llun a rhoi cliwiau i chi os nad ydych chi'n gallu cofio rhywbeth. Yna newidiwch drosodd gyda'ch partner.
- Meddyliwch am 5 gair i ddisgrifio'r llun. Gallwch ddewis geiriau sy'n disgrifio gwahanol elfennau'r llun, y lliwiau, y darlun cyfan neu sut mae'r llun yma'n gwneud i chi deimlo.
- Dychmygwch eich bod yn gallu camu i mewn i'r llun! Pa ran o'r llun dych chi eisiau camu i mewn iddo? Meddyliwch am beth sydd agosaf atoch yn y llun. Pa elfen o'r llun sydd fwyaf pell oddi wrthych? Petai chi'n estyn eich llaw, beth fyddech chi'n ei gyffwrdd, a beth fyddech chi'n ei arogli petaech chi'n anadlu'n ddwfn?
- Pa deitl fyddech chi'n ei ddewis ar gyfer y llun?




Ar ôl dysgu am yr artist a'i gwaith, anogwch y dysgwyr i greu eu gweithiau celf lliwgar eu hunain – gydag anifeiliaid o'u dychymyg neu anifeiliad ffantasi yn llawn lliwiau llachar a phatrymau, fel y rhai isod. Gall y dysgwyr ddefnyddio unrhyw gyfrwng maen nhw eisiau i greu eu gweithiau celf.



Gweithiau celf a ysbrydolwyd gan Maria Prymachenko – gan blant o Ysgol Gynradd Santes Fair yr Eglwys yn Lloegr, Shawbury

# Llythyrau o Wcráin

## Gweithgareddau

**Amcanion Dysgu:** Darllen llythyrau gan blant o wahanol rannau o Wcráin, ac ymateb iddynt

**Cysylltiadau Cwricwlwm:** Cymraeg

**Sgiliau trosglwyddadwy a gwerthoedd:** Cyfathrebu a chydweithio, creadigrwydd a defnyddio dychymyg, empathi, llythrennedd digidol

**Adnoddau:** Bydd angen copïau o'r llythyrau, atlasau a/neu mynediad i'r rhyngrwyd, darnau o gerdyn, peniau lliw.

Ysgrifennwyd y llythyrau hyn gan ddysgwyr o wahanol ysgolion mewn gwahanol rannau o Wcráin. Yn eu llythyrau, mae'r plant yn sôn am eu teuluoedd a'u hysgolion, eu hoff fwydydd, hoff weithgareddau ar ôl ysgol a'u hoff lyfrau. Maen nhw hefyd yn disgrifio sut maen nhw'n dathlu gŵyl boblogaidd yn Wcráin gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd.

## Gweithgareddau

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch wahanol lythyr i bob un o'r grwpiau. Gofynnwch i'r dysgwyr ffeindio lleoliad y dref neu ranbarth lle mae cartref y llythyrwr ar fap o Wcráin. Yna, trafodwch y cwestiynau canlynol:

- Beth oedd y peth mwyaf diddorol am y llythyr yma?
- Beth hoffech chi wybod mwy amdano?
- A wnaeth unrhyw beth eich synnu? Oedd unrhyw beth nad oeddech chi'n ei ddeall?
- Pa gwestiwn hoffech chi ofyn i ysgrifennwr y llythyr?

Anogwch eich dysgwyr i ysgrifennu ateb i'r llythyr maent wedi'i ddarllen – gan ddisgrifio eu teulu, gweithgareddau ysgol a hoff lyfrau a gwyliau. Gan ddibynnu ar ba ddulliau cyfathrebu rydych yn eu defnyddio yn y wers, gallai'r ateb hwn fod yn llythyr, cerdyn post, ebost neu flog.



Annwyl ffrindiau,

Fy enw i yw Yana ac mae gen i deulu mawr. Mae gen i 2 frawd hŷn. Dw i'n byw gyda fy mam, fy nhad a fy mrawd yn Nizhyn yn rhanbarth Chernihiv yng ngogledd Wcráin. Dw i'n 9 oed a dw i'n ddysgwr yn Gymnasiwm Rhif 3 Nizhyn.

Ar ôl ysgol dw i'n mynd i ddosbarth dawnsio a dw i'n caru tynnu lluniau. Dw i'n gwneud llawer o ymarfer corff a chymryd rhan mewn gwahanol gystadlaethau. Fy hoff fwydydd yw pasta, hufen iâ, mefus a mafon. Fy hoff lyfr yw 'Mowgli' gan Rudyard Kipling.

Yn Wcráin mae gyda ni lawer o wyliau. Fy hoff wyliau i yw Diwrnod Vyshyvanka a Diwrnod y Plant. Ar Ddiwrnod Vyshyvanka rydyn ni'n gwisgo ein crysau Vyshyvanka hardd - crysau traddodiadol Wcreinaidd gyda brodwaith lliwgar iawn.

Oddi wrth
Yana, 9 oed






Annwyl ffrindiau,

Dydy fy nheulu i ddim yn fawr. Mae 4 ohonom ni. Dw i'n byw gyda fy mam, fy nhad a fy chwaer fach. Enw fy chwaer yw Daryna ac mae hi'n bump oed. Dw i'n astudio yn Gymnasiwm Rhif 3 Nizhyn, yn Nizhyn yng ngogledd Wcráin. Mae ein hysgol ni'n cŵl! Ar ôl ysgol dw i'n gwneud combat sambo – sy'n fath o grefft ymladd (martial art). Dw i hefyd yn chwarae fy nhrwmped. Dw i wedi ennill dwy wobr mewn gwyliau cerddoriaeth, ac ym mis Mai rydyn ni'n mynd i gael cyngerdd. Dw i'n mynd i chwarae darn cerddorol o'r enw 'Darn i drwmped a phiano'. Fel arfer, ar ôl cyngerdd dw i a fy nheulu'n mynd i gaffi. Fy hoff fwyd yw varenyky (twmplenni) gyda thatws a holubtsi (bresych) – pryd bwyd Wcreinaidd iawn. Ydych chi wedi clywed am giwcymbrau Nizhyn? Maen nhw'n flasus iawn!

Mae fy hoff lyfr yn sôn am wyddonwyr a dyfeiswyr Wcreinaidd. Awdur y llyfr yw Oksana Polischuk. Fe ddysgais i lawer o ffeithiau diddorol wrth ddarllen y llyfr yma.

Yn Wcráin, mae gyda ni lawer o wyliau. Fy hoff un i yw Ivana Kupala. Mae'n digwydd ar Orffennaf 7fed. Rydyn ni'n ei ddathlu yn y nos. Yn draddodiadol mae'r merched yn gwisgo torchau ar eu pennau, ac yna'n eu taflu i'r dŵr – a'u gwylio'n arnofio. Ac maen nhw hefyd yn ceisio dyfalu pwy fyddan nhw'n ei briodi rhyw ddydd! Mae'r bechgyn yn cymryd rhan mewn pob math o gystadlaethau. Ar ddiwedd yr ŵyl mae dau gwpl yn neidio dros goelcerth, canu caneuon a dawnsio. Mae Wcráin yn wlad hardd, diddorol a heddychlon iawn.

Oddi wrth, Ivan, 10 oed



Nizhyn
Chernihiv
Wcráin

Fy ffrind annwyl!

Fy enw i yw Tetiana. Dw i'n 13 oed, a dw i ym mlwyddyn 7. Dw i'n byw yn ninas Lutsk yn Wcráin. Mae 3 o bobl yn fy nheulu i, sef fy mam, fy nhad a fi.

Ar ôl ysgol dw i'n mwynhau tynnu lluniau a gwneud crefftau. Hefyd, llynedd fe wnes i gymryd rhan mewn Cystadleuaeth Iaith Wcraneg. Fy hoff fwyd yw twmplenni â thatws, yn enwedig y rhai mae mam yn eu gwneud.

Dw i'n caru darllen straeon tylwyth teg Wcreinaidd, a fy hoff awdur yw Lesya Ukrainka. Mae ei cherddi hi'n ddwfn a hyfryd iawn!

Fy hoff ŵyl yw'r Nadolig pan rydyn ni'n dathlu geni Iesu Grist a threulio amser gyda'n teuluoedd. Rydyn ni'n mynd i'r eglwys, cyfnewid anrhegion a chanu carolau. Dw i'n hoffi'r ŵyl yma'n fawr iawn.

Cofion gorau

Tanya



Helo – Gobeithio bod chi'n iawn.

Fy enw i yw Davyd a dw i'n 12 mlwydd oed. Dyw fy nheulu i ddim yn fawr achos does dim brawd na chwaer gen i. Dw i'n byw yn Lutsk sydd yn rhanbarth Volyn o Wcráin. Dw i'n astudio yn Lyceum Lutsk.

Yn bersonol, dw i ddim yn meddwl fod Mathemateg a Ffiseg at fy nant i. Dw i'n hoffi Saesneg, ieithoedd tramor ac Addysg Gorfforol. Y peth dw i'n ei garu fwyaf yw cerddoriaeth – fel mae'n digwydd, dw i'n trio dysgu chwarae'r gitâr ar hyn o bryd.

Dw i'n hoffi bwyd traddodiadol, ond does gen i ddim yn erbyn bwyd o wledydd eraill chwaith. Dw i'n hoffi pitsa'n fawr iawn a bwyd cenedlaethol Wcráin sef borsche – gyda hufen sur a varenyky (twmplenni) wedi'u llenwi â thatws.

Fy hoff lyfr yw 'Y Ddau Doreador o Bentref Vasukiva' gan Vsevolod Nestayko. Mae'n adrodd stori dau fachgen sy'n cael troeon trwstan ac anturiaethau gwallgof sy'n ddiddorol iawn.

Yn olaf, dw i eisiau sôn wrthoch chi am fy hoff ŵyl – sef y Pasg. Yr enw Wcraneg ar yr ŵyl yw Velykden – mae hwn yn cyfieithu i rywbeth fel 'Y Prif Ddiwrnod'. Mae llawer o draddodiadau lleol ar gyfer yr ŵyl yma. Ar Ddydd Sul y Pasg mae teuluoedd yn mynd i'r eglwys yn gynnar iawn yn y bore – gyda basgedi Pasg. Hefyd, rydyn ni'n pobi paska – bara Pasg melys wedi'i addurno'n arbennig. Rydyn ni hefyd yn paentio wyau – rydyn ni'n eu galw yn 'pysanka'. Ar ôl eu paentio, rydyn ni'n cael brwydr taflu wyau at ein gilydd – mae'n draddodiad!

Dw i wedi mwynhau ysgrifennu'r llythyr yma achos roedd yn gyfle i ddweud ychydig wrthoch chi am fy niwylliant.

Cariad o Wcráin

Davyd





#Ukraineculturepack

## Gweithgareddau Ymestyn

### Ymchwil

Gofynnwch i bob grŵp ysgrifennu enw'r ŵyl sy'n cael ei chrybwyll yn y llythyr maen nhw wedi'i ddarllen ar ddalen fawr o bapur. Anogwch y dysgwyr i ffeindio unrhyw wybodaeth ychwanegol am yr ŵyl honno a sut mae pobl Wcráin yn ei dathlu. Gall y dysgwyr ysgrifennu'r ffeithiau ychwanegol ar nodion gludiog a'u glynnu wrth ddalen fawr o bapur.

Yna gwahoddwch bob dysgwr i ddewis un ŵyl a chreu ac addurno carden arbennig ar gyfer y dathliad neu'r ŵyl arbennig yna. Ar ôl iddynt orffen creu'r garden, gofynnwch iddynt ysgrifennu cyfarchiad addas yn y garden – o adran iaith y pecyn. Er enghraifft, os ydyn nhw'n dewis Diwrnod Vyshyvanka, efallai y byddan nhw'n tynnu llun patrymau brodwaith ar flaen y garden, a thu mewn ysgrifennu:

"Веселого свята!"

(Veseloho sviata!) sy'n golygu "(Dydd) Gŵyl Hapus!" neu "Hwyl yr Ŵyl i chi!"





## Gweithgareddau gydag ysgol bartner

Os ydych chi'n gweithio gydag ysgol bartner, gallech:

Drafod eich hoff ddathliadau, a chyfnewid cardiau arbennig gyda chyfarchion wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg ac Wcraneg.

Defnyddiwch y pynciau a gododd yn y llythyrau – ysgolion, gweithgareddau ar ôl ysgol a hoff lyfrau – i ddysgu mwy am aelodau'r naill ysgol a'r llall yn eich cyfarfodydd ar-lein.

# Rysáit Wcreinaidd: Varenky

## Gweithgareddau

**Amcanion Dysgu:** Dysgu sut i baratoi fersiwn wedi'i symleiddio o bryd bwyd Wcreinaidd traddodiadol

**Cysylltiadau Cwricwlwm:** Dylunio a Thechnoleg, Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economaidd

Sgiliau Craidd: Cyfathrebu a chydweithio

**Adnoddau:** Cynhwysion y rysáit, offer paratoi/coginio

Fel y gwelom yn llythyrau'r plant, mae bwyd traddodiadol yn rhan ganolog o wyliau a dathliadau yn Wcráin. Yn eu llythyrau, mae Ivan a Davyd yn dweud mai Varenky yw eu hoff fwyd Wcreinaidd. Mae'r twmplenni hyn yn cael eu paratoi drwy lapio toes o gwmpas llenwad melys neu sawrus.



Beth am roi cynnig ar y fersiwn yma o rysait Varenyky wedi'i symleiddio gyda'ch dysgwyr?

Daw'r fersiwn yma gyda chaws colfran o'r wefan yma: rud.ua/en/consumer/recipe/desertu/linyvi-varenyky-iz-syrom/

**Cyn dechrau – cofiwch ofyn i'ch dysgwyr os oes ganddynt unrhyw alergedd bwyd. Bydd angen oedolyn i ferwi'r dŵr a rhoi'r twmplenni yn y dŵr berw.**

| **Cynhwysion:** | |
|---|---|
| **Caws colfran** | 400 g |
| **Blawd** | 1 llond cwpan |
| **Wy** | 1 |
| **Siwgr** | 2 lwy fwrdd |
| **Halen** | pinsiad |
| **Croen lemwn wedi gratio** | 3 g |
| **Menyn** | 30 g |
| | |
| | |
| **Ar gyfer y saws:** | |
| **Iogwrt plaen** | 200 g |
| **Siwgr Eisin** | 1 llwy de |
| **Mintys ffres** | 2 sbrigyn |





**Cyfarwyddiadau:**

- Cymysgwch y caws colfen gyda'r wy, siwgr a'r halen. Ychwanegwch y croen lemwn wedi gratio a'r blawd. Tylinwch y gymysgedd nes ei fod yn does esmwyth ac ystwyth.
- Torrwch y toes yn bedwar darn o'r un maint. Rholiwch y darnau nes eu bod yn 'selsig' hir. Torrwch yn dwmplenni tew (tua 1cm yr un). Gwasgwch bob twmplen ychydig cyn ei rholio yn y blawd.
- Rhowch ddigon o ddŵr mewn pot ac yna berwch y dŵr. Coginiwch y twmplenni yn y dŵr berw am 3–5 munud. Tynnwch nhw o'r dŵr a'u rhoi ar blât gweini. Arllwyswch ychydig o fenyn wedi'i doddi dros y twmplenni.
- I baratoi'r saws, cymysgwch y siwgr a'r iogwrt cyn ychwanegu mintys wedi'i dorri'n fân. Gweinwch y twmplenni a'r saws gyda'i gilydd. Gallwch ychwanegu gwahanol fathau o aeron wrth weini'r twmplenni (neu beth am drio saws sawrus?).

**Mwynhewch!**

"Смачного!"

# Cynnal digwyddiad i ddathlu iaith a diwylliant Wcráin

I rannu'r holl bethau mae eich dysgwyr wedi'u dysgu am Wcráin, beth am wahodd ffrindiau a theuluoedd i'r ysgol i rannu diwrnod arbennig o ddathlu? Gall eich dysgwyr ddechrau drwy ganu clychau – fel mae plant yn Wcráin yn ei wneud ar ddechrau dathliadau Diwrnod Gwybodaeth. Yna gallech rannu stribedi comig y dysgwyr a dangos cymaint maen nhw wedi'i ddysgu am gelf, iaith a gwyliau Wcreinaidd. Ac wrth gwrs, gall y dysgwyr ddysgu pawb sydd wedi dod i'r dathliad i ysgrifennu cyfarchion mewn Wcraneg, yn ogystal â blasu twmplenni blasus.

Yn ogystal, gallwch rannu enghreifftiau o waith eich dysgwyr ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio'r hashnod:

**#Ukraineculture**pack



# Darganfod Mwy

Gobeithio fod eich dysgwyr wedi mwynhau dysgu am wahanol agweddau o iaith a diwylliant Wcráin. Os hoffech wybod mwy, mae'r dolenni canlynol yn cynnwys pob math o wybodaeth ac adnoddau ychwanegol:

**Gwybodaeth am drafod y rhyfel a'r gwrthdaro gyda phlant a phobl ifanc:**

Place2Be – Siarad â phlant a phobl ifanc am ryfel a gwrthdaro

- www.place2be.org.uk/about-us/news-and-blogs/2022/march/talking-to-children-and-young-people-about-war-and-conflict/

Education Scotland – Cefnogaeth i addysgwyr

- education.gov.scot/resources/teaching-about-conflict-and-war-support-for-educators/

Oxfam – Trafod Wcráin yn yr ysgol:

- views-voices.oxfam.org.uk/2022/03/talking-about-ukraine-in-school-here-are-eight-ways-to-help-young-people-learn-think-and-act/

**Cyfarchion yn Wcraneg:**

- www.ukrainianlessons.com/episode1/

**Misoedd y Flwyddyn yn Wcraneg:**

- www.ukrainianlessons.com/months

**Celfyddydau a chrefftau Wcreinaidd:**

Gwers – sut i dynnu llun blodyn yr haul:

- artprojectsforkids.org/how-to-draw-a-sunflower/

Origami Blodau'r Haul:

- www.youtube.com/watch?v=B95eyDTaLR4

Creu wyau pyansky:

- www.youtube.com/watch?v=vCO8h4whiKQ&t=75s

**Gwaith celf Maria Prymachenko :**

- blogs.bl.uk/european/2018/02/maria-prymachenkos-fantastic-world-of-flowers-and-animals.html

www.wikiart.org/en/maria-primachenko

**Ryseitiau Wcreinaidd:**

Syrnyky Wcreinaidd::

- rud.ua/en/consumer/recipe/desertu/linyvi-varenyky-iz-syrom/

- Banosh gyda thopins fel caws a madarch:
- authenticukraine.com.ua/en/food/berlibaskij-banos

**Gwybodaeth gyffredinol::**

- 'Blue Skies and Golden Fields Celebrating Ukraine' gan Oksana Lushchevska (2023)

- Yr Oriel Genedlaethol / National Gallery – ffyrdd o edrych ar gelf a siarad amdano: www.nationalgallery.org.uk/learning/search

Roedd y dolenni hyn yn gweithio ar adeg cyhoeddi'r pecyn adnoddau hwn..



Hoffai'r British Council ddiolch i bawb a fu'n helpu a chydweithio i gynllunio a chreu'r pecyn adnoddau hwn. Diolch arbennig i'r Sefydliad Wcreinaidd, athrawon Ysgol Santes Fair yr Eglwys yn Lloegr yn Shawbury, Shropshire ac YGG Pontybrenin yn Abertawe, a staff adran addysg yr Oriel Genedlaethol / National Gallery.

Mae llawer o wahanol ffyrdd y gallwch ddarganfod mwy, cymryd rhan, a manteisio ar waith rhyngwladol y British Council:

## Ffeindio ysgol bartner

Gall partneriaethau ysgol rhyngwladol ysbrydoli dysgwyr drwy ddod â'r byd i mewn i'r ystafell ddosbarth drwy weithgareddau dysgu ar y cyd sy'n dod â dysgu ieithoedd yn fyw. Maent hefyd yn gyfle i athrawon rannu profiadau a dysgu arfer newydd gan gydweithwyr mewn gwledydd eraill. Cymerwch gip ar ein gwefan Ffeindio Partner – lle cewch hyd i ganllawiau ac adnoddau i ffeindio ysgolion tebyg i'ch un chi o gwmpas y byd: school-partner-finder.britishcouncil.org/

## Amrywiaeth o Adnoddau

Cymerwch gip ar ein hadnoddau addysgu a dysgu rhyngwladol – sy'n cynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth a chynlluniau gwersi: www.britishcouncil.org/school-resources

## Ennill Cydnabyddiaeth

Ymunwch â chynllun nodedig Gwobr Ysgolion Rhyngwladol y British Council i ennill achrediad am eich gwaith rhyngwladol: www.britishcouncil.org/school-resources/accreditation/international-school-award

